# Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

**2017 dccc 3**

## RHAN 3

GWAREDIADAU TRETHADWY A WNEIR AR SAFLEOEDD TIRLENWI AWDURDODEDIG

## PENNOD 2

Y DRETH SYDD I'W CHODI AR WAREDIADAU TRETHADWY

*Pwysau trethadwy deunydd*

### 21 Disgownt mewn cysylltiad â dŵr mewn deunydd

(1) Caiff gweithredwr safle tirlenwi awdurdodedig wneud cais i ACC am gymeradwyaeth i gymhwyso disgownt mewn cysylltiad â dŵr sydd mewn deunydd wrth gyfrifo pwysau trethadwy'r deunydd mewn gwarediad trethadwy.

(2) Rhaid i gais am gymeradwyaeth gael ei gyflwyno mewn ysgrifen.

(3) Pan fo'r gweithredwr yn gwneud cais am gymeradwyaeth—

- (a) rhaid i ACC ddyroddi hysbysiad i'r gweithredwr am ei benderfyniad ar y cais, a
- (b) os yw ACC yn rhoi cymeradwyaeth, rhaid i'r hysbysiad nodi manylion y gymeradwyaeth.

(4) Ni chaiff ACC roi cymeradwyaeth i'r gweithredwr gymhwyso disgownt mewn cysylltiad â dŵr sydd mewn deunydd onid yw—

- (a) y dŵr yno oherwydd—
  - (i) bod rhaid ei ychwanegu er mwyn gallu cludo'r deunydd i'w waredu,

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 21. (See end of Document for details)*

(ii) bod rhaid ei ddefnyddio i echdynnu mwyn,

(iii) bod rhaid ei ychwanegu yng nghwrs proses ddiwydiannol, neu

(iv) ei fod yn deillio'n anochel o ganlyniad i broses ddiwydiannol, neu

(b) y deunydd yn weddillion trin elifiant neu garthion mewn gwaith trin dŵr.

(5) Mewn perthynas â chymeradwyaeth—

(a) caiff ymwneud â'r holl warediadau trethadwy y gwneir y cais mewn cysylltiad â hwy, neu â disgrifiadau penodol o'r gwarediadau trethadwy hynny yn unig;

(b) caiff bennu disgowntiau gwahanol ar gyfer disgrifiadau gwahanol o warediadau trethadwy;

(c) caiff fod yn ddiamod neu'n ddarostyngedig i amodau (er enghraifft, amod sy'n gwneud taliad yn ofynnol mewn cysylltiad â phrofion ar ddeunydd);

(d) caniateir ei rhoi am gyfnod penodedig neu am gyfnod anghyfyngedig;

(e) caniateir ei hamrywio neu ei dirymu ar unrhyw adeg drwy ddyroddi hysbysiad i'r gweithredwr.

(6) Rhaid i weithredwr safle tirlenwi awdurdodedig gadw cofnod o bob gwarediad trethadwy y cymhwysir disgownt iddo mewn cysylltiad â dŵr sydd mewn deunydd (sef "cofnod disgownt dŵr").

(7) Caiff ACC bennu—

(a) ar ba ffurf y mae'n rhaid cadw cofnod disgownt dŵr;

(b) yr wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys ynddo.

(8) Mae'r cofnod i'w drin at ddibenion DCRhT fel cofnod y mae'n ofynnol ei gadw a'i storio'n ddiogel o dan adran 38(1) o DCRhT at ddiben dangos bod y ffurflen dreth y mae'n ofynnol i'r gweithredwr ei dychwelyd, mewn cysylltiad â'r cyfnod cyfrifyddu y mae treth i'w chodi ar y gwarediad mewn cysylltiad ag ef, yn gywir ac yn gyflawn.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 21 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 97(2)**

**I2** A. 21(1)-(5)(7) mewn grym ar 25.1.2018 gan O.S. 2018/35, **ergl. 2(c)**

**I3** A. 21(6)(8) mewn grym ar 1.4.2018 gan O.S. 2018/35, **ergl. 3**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 21.